# Uwch Arholwr

## Lefel 3 Gwyddor Bwyd a Maeth Uned 1:

## Proffil y Rôl a Ffurflen Gais

**Diben:**

Mae CBAC yn recriwtio Uwch Arholwr. Yr ymgeiswyr llwyddiannus fydd yn gyfrifol am asesu arholiad Lefel 3 Gwyddor Bwyd a Maeth Uned 1.

Cyfrifoldeb Uwch Arholwr yw gosod y papurau cwestiynau a'r cynlluniau marcio a sicrhau safoni'r marcio.

**Cyfrifoldebau**

- gosod cwestiynau a chynlluniau marcio'r papur cwestiynau neu gymeradwyo rhai a baratowyd gan arholwyr eraill
- mynychu cyfarfod y Pwyllgor Gwerthuso Papur Cwestiynau
- monitro safonau marcio holl arholwyr y papur, gan gynnwys, lle bo angen, unrhyw arholwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, a gweithredu'n briodol i sicrhau cywirdeb a chysondeb
- cynghori ar benodi, hyfforddi ac ailbenodi arweinwyr tîm ac arholwyr ar gyfer y papurau cwestiynau, lle bo angen gwneud hynny
- mynychu'r cyfarfod dyfarnu, cynghori aelodau ynghylch gweithrediad y papur cwestiynau ac argymell ystodau rhagarweiniol y marciau ar gyfer y ffiniau gradd yn ôl barn i'r papur cwestiynau
- cyflwyno adroddiad gwerthuso ar berfformiad y papur cwestiynau/tasgau
- bod ar gael i ymgymryd â marcio adolygol ym mhob sesiwn yn ôl gofynion CBAC yn ymwneud ag Ymholiadau am Ganlyniadau yn ystod y cyfnodau perthnasol

Mae angen i Uwch Arholwyr fod ar gael am gyfnod o bum diwrnod y flwyddyn o leiaf. Gall y cyfnod hwn gynnwys dyddiau yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae tâl rhyddhau ar gael i ganolfannau. Bydd hyn yn galluogi i ddeiliad y swydd fynychu PGPC (deuddydd), safoni arweinwyr tîm ar gyfer y papur arholiad ym mis Mehefin (un diwrnod), a mynychu'r gynhadledd arholwyr (un diwrnod) a'r gynhadledd ddyfarnu ym mis Gorffennaf (un diwrnod). Gellir cynnal y cyfarfodydd hyn wyneb yn wyneb neu o bell drwy TEAMS ar-lein.

**Profiad/cymwysterau angenrheidiol**

- gradd yn y pwnc sy'n benodol i'r cymhwyster hwn neu bwnc cysylltiol
- profiad asesu ac addysgu perthnasol
- profiad rheoli pobl
- y gallu i weithio'n dda dan bwysau

I gael gwybod mwy, cysylltwch â Allison Candy: allison.candy@wjec.co.uk . Y dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau yw dydd 10 Chwefror 2025.

**Sut i wneud cais**:

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio** i CBAC ar hyn o bryd, ewch i https://appointees.wjec.co.uk a chlicio 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodiadau (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Uwch Arholwr Gwyddor Bwyd a Maeth Lefel 3 Uned 1** ar y tab 'maes pwnc', a llenwch feysydd eraill y cais.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth pellach wrth lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â:-

| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds<br>rob.reynolds@wjec.co.uk<br>029 20265050 | neu | Rabina Chowdhury<br>rabina.chowdhury@wjec.co.uk |